Gwasanaeth Cynghori Diogelwch a Safonau Bwyd

Telerau ac Amodau

i. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu telerau ac amodau'r Awdurdod wrth iddo ddarparu gwasanaeth cynghori diogelwch a safonau bwyd i'r Busnes mewn ystyriaeth o'r Ffi a amlinellir yng nghymal 2.

ii. Bydd y telerau ac amodau hyn yn weithredol a dylid eu darllen ar y cyd â'r Rhestr o Wasanaethau y Gofynnir Amdanynt a arwyddwyd gan y Partïon.

1 Dehongliad

Yn y cytundeb hwn:

a) Mae'r "Awdurdod" yn golygu Cyngor Sir Penfro, y rhai a gyflogir ganddo a'i gynrychiolwyr.

b) Mae'r "Busnes" yn golygu'r busnes a adwaenir yn y Rhestr o Wasanaethau y Gofynnir Amdanynt sydd yn barti i'r Cytundeb hwn ac yn cynnwys: gweithredwr busnes bwyd y Busnes, unrhyw berchennog, corff cyfreithiol arall, cyflogai a chynrychiolydd neu un a gysylltir â'r Busnes.

c) Mae "Gwybodaeth Gyfrinachol" yn golygu gwybodaeth, boed ysgrifenedig neu ar lafar, a ddarperir gan y Parti sy'n datgelu i'r parti sy'n derbyn ac sydd (i) wedi'i farcio neu nodi fel bod yn gyfrinachol; neu (ii) a ddylai gael ei ystyried yn rhesymol i fod yn gyfrinachol gan y Parti sy'n ei dderbyn;

d) Mae "DPA" yn golygu'r Ddeddf Diogelu Data 1998 fel y diweddarir hi o bryd i'w gilydd.

e) Mae "Blaendal" yn golygu'r blaendal a ddiffinnir yng nghymal 2.3.

f) Mae "Ffioedd" yn golygu'r ffioedd sy'n daladwy gan y Busnes i'r awdurdod, fel y cyfrifwyd hwy yn unol â chymal 2 o'r Cytundeb hwn.

g) Mae "FOIA" yn golygu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel y diweddarir hi o bryd i'w gilydd;

h) Mae "Parti" yn golygu'r Awdurdod neu'r Busnes fel y bo'n berthnasol i'r cyd-destun a bydd "Partïon" yn golygu'r ddau ohonynt.

i) Mae "Rhestr o Wasanaethau y Gofynnir Amdanynt" yn golygu'r rhestr o ddewisiadau gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod gan nodi'r gwasanaethau a ddewiswyd gan y Busnes (yn y golofn i'w thicio) ac yn amlinellu'r amser a'r costau a amcangyfrifwyd ar gyfer

darparu'r cyngor y gofynnwyd amdano, neu unrhyw Restr o Wasanaethau y Gofynnir Amdano sy'n olynol neu'n ychwanegol fel y cytunwyd yn unol â chymal 4.3.

j) Mae "Gwasanaeth" yn golygu'r rheini a ddarperir gan y gwasanaeth cynghori diogelwch a safonau bwyd, y gofynnwyd amdano gan y Busnes oddi wrth yr Awdurdod ac a ddiffinnir ymhellach yng nghymal 4.3.

k) Mae "Diwrnod Gwaith" yn golygu diwrnod (heblaw am ddydd Sadwrn neu ddydd Sul) pan fydd y banciau ar agor i fasnachu yn Ninas Llundain.

2 Ffioedd

2.1 Bydd y Busnes yn talu lleiafswm o £104.00 (+ TAW), neu £138.84 (+ TAW) os oes angen i'r Awdurdod ymweld â'r safle, a bydd angen derbyn a chlirio'r arian hwn cyn bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu (y "Ffi Leiaf"). Mae'r ffi hon yn talu am 2 awr gyntaf y Gwasanaeth. Os yw'r amcan gost am lai na 2 awr, bydd y Ffi Leiaf yn berthnasol, ac ni fydd angen ad-dalu arian i'r Busnes am y gwahaniaeth rhwng yr amser a dreuliwyd a'r Ffi Leiaf.

2.2 Y gost am unrhyw waith sy'n cymryd mwy na'r lleiafrif o 2 awr fydd £52 yr awr (+ TAW).

2.3 Y gost am ymweliadau ychwanegol fydd £34.84 + TAW (£41.81 yn cynnwys TAW) am amser teithiau a chostau teithio.

2.4 Bydd yr Awdurdod yn cynnal cyfrif manwl a chywir o bob gwaith yr ymgymerwyd ag ef yn unol â'r Cytundeb hwn, gan gynnwys yr amser a gymerwyd o fewn y ¼ awr agosaf, a bydd yn darparu anfoneb i'r Busnes i berwyl ei holl ffioedd, yn dilyn cwblhau'r Gwasanaeth ("yr Anfoneb").

2.5 Bydd yr Awdurdod a'r Busnes yn cytuno fod yr amcan-gostau ar gyfer darparu'r Gwasanaeth gan yr Awdurdod yn unol â'r hyn a amlinellir yn y Rhestr o Wasanaethau y Gofynnir Amdanynt neu fel yr amrywiwyd ef yn unol â'r ddarpariaeth a amlinellwyd yn y Rhestr o Wasanaethau y Gofynnir Amdanynt.

2.6 Bydd y Busnes yn talu unrhyw gost ychwanegol uwchlaw Lleiafswm y Ffi neu'r Blaendal (fel y bo'n berthnasol) sy'n ddyledus o fewn 7 Diwrnod Gwaith o ddyddiad yr Anfoneb.

2.7 Os yw cyfanswm y costau a amlinellir i ddod yn ddyledus yn yr Anfoneb yn llai na'r Blaendal a dalwyd, yna bydd yr Awdurdod yn ad-dalu'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm y costau a'r Blaendal i'r Busnes o fewn 7 Diwrnod Gwaith o ddyddiad yr Anfoneb.

2.8 Bydd y Busnes yn cydnabod ac yn cydsynio y bydd, wrth ddewis yr opsiwn 'crynodeb o nodiadau cynghori a gynhyrchir adeg yr ymweliad' yn y Rhestr o Wasanaethau y Gofynnir Amdanynt, ni seilir gwasanaeth o'r fath ar 'adroddiad cynghori ysgrifenedig manwl' a chodir amdano i'r perwyl hwnnw, ac ni ddylid dibynnu arno yr un modd.

3 CWMPAS A CHYNSAIL

3.1 Er mwyn osgoi amheuaeth, nid oes dim yn y Cytundeb hwn a fydd yn:

a) llyffetheirio hawl yr Awdurdod i weithredu unrhyw hawl neu atebolrwydd y mae hawl ganddo i'w wneud yn gyfreithiol; na

b) gorfodi i'r Awdurdod weithredu neu beidio â gweithredu mewn unrhyw fodd sy'n wrthwynebus i unrhyw ofynion cyfreithiol.

4 RHWYMEDIGAETHAU'R AWDURDOD

4.1 Mae'r Awdurdod yn cytuno y bydd y Gwasanaethau'n cael eu darparu:

a) gan staff â chymwysterau addas ac mewn modd proffesiynol a chwrtais;

b) gyda gofal a sgìl rhesymol;

c) o fewn amserlen resymol fel y nodwyd gan yr Awdurdod i'r busnes o bryd i'w gilydd; ac

d) heb ragfarn i ofynion neu ddyletswyddau cyfreithiol eraill.

Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn llyffetheirio mewn unrhyw fodd hawl a / na rhwymedigaeth yr Awdurdod i weithredu mewn unrhyw fodd y barna sy'n addas yn yr amgylchiadau, gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, weithredu gorfodi addas yn unol â'i bolisi gorfodi. Nid yw'r Cytundeb hwn yn atal yr Awdurdod rhag cymryd unrhyw gamau gorfodi y mae'n credu bod angen eu cymryd a bydd unrhyw weithred orfodi yn cael ei gwneud gan yr un gweithwyr neu gynrychiolwyr o'r Cyngor sydd wedi bod ynghlwm â darpariaeth Gwasanaeth yr Awdurdod dan y Cytundeb. Lle mae'r Awdurdod yn gweld bod gweithred orfodi yn addas, bydd yr Awdurdod yn hysbysu'r Busnes o hyn (yn cynnwys egluro swyddogaeth ei weithwyr neu gynrychiolwyr gyda hyn).

4.2 Bydd y Busnes yn cytuno y bydd yn darparu i'r Awdurdod unrhyw wybodaeth a chymorth y bydd ei angen yn rhesymol ar yr Awdurdod er mwyn galluogi neu hwyluso'r Awdurdod wrth iddo ddarparu'r gwasanaeth y cytunwyd arno.

4.3 Mae'r Awdurdod a'r Busnes yn cytuno y bydd y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r Busnes fel yr amlinellir ef yn y Rhestr o Wasanaethau y Gofynnwyd Amdanynt a/neu unrhyw Restr o Wasanaethau y Gofynnwyd Amdanynt atodol neu ychwanegol a gytunwyd rhwng y partïon.

5 CWMPAS CYNGOR AC ATEBOLRWYDD

5.1 Mae'r Busnes yn cytuno:

a) mai'r rheswm gwaelodol dros ddarparu'r Gwasanaeth gan yr Awdurdod yw darparu cyngor i'r Busnes yng nghyd-destun gofynion cyfreithiau bwyd;

b) nad yw'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod i'r Busnes yn mynd i rwystro gweithredu gorfodi rhag digwydd yn erbyn y Busnes. Gall unrhyw weithred orfodi gael ei chymryd yn ystod yr un ymweliad a gan yr un swyddogion sydd ynghlwm â darpariaeth y Gwasanaeth, ond bydd unrhyw amser sy'n cael ei dreulio ar weithred orfodi yn cael ei gofnodi ar wahân i amser a dreulir yn darparu'r gwasanaeth.

c) y gall y cyngor neu'r arweiniad a ddarperir gan yr Awdurdod fel rhan o'r Gwasanaeth ddod yn hen-ffasiwn neu'n balledig ar ôl ei dderbyn;

d) mai cyfrifoldeb y Busnes yw'r ddyletswydd yn unol â chydymffurfio a deddfwriaeth bwyd.

5.2 Heblaw am yr achosion ble nodir hynny'n benodol yn y Cytundeb hwn, eithrir yr holl delerau, amodau, gwarantau a chynrychioliadau a fyddai fel arall yn cael eu cymhwyso neu ddeall (drwy statud neu fel arall) yn, neu mewn perthynas â'r Cytundeb hwn hyd yr eithaf a ganiateir gan y gyfraith.

5.3 Nid yw'r naill barti na'r llall yn eithrio nac yn cyfyngu atebolrwydd i'r parti arall o ran twyll, nac o ran marwolaeth neu niwed personol a achoswyd gan ei esgeulustra (fel y diffinnir fe yn y Ddeddf Telerau Cytundeb Annheg 1977), nac am unrhyw atebolrwydd arall nad yw'n bosib eithrio na chyfyngu'r atebolrwydd drosto drwy weithredu'r gyfraith.

5.4 Cyfyngir atebolrwydd yr Awdurdod tuag at y Busnes o ganlyniad i neu mewn cyswllt â'r Cytundeb hwn (boed o ran cytundeb, camwedd, esgeulustra neu arall) i'r swm a dalwyd gan y Busnes am y Gwasanaeth mewn unrhyw un flwyddyn.

5.5 Ni fydd y naill barti'n atebol i'r llall o dan unrhyw achos o dan neu mewn cyswllt â'r Cytundeb hwn (boed o ran cytundeb, camwedd, esgeulustra neu arall) am unrhyw golled neu niwed anuniongyrchol neu o ganlyniad, nac am unrhyw rai o'r colledion canlynol (boed uniongyrchol neu anuniongyrchol):

a) unrhyw golli elw;

b) colli busnes

c) colli cyfle

d) colli cyllid

e) colli ewyllys da

f) colli darpar gontractau; a/neu

g) colli darpar gynilon.

5.6 Mae'r Busnes yn cytuno ac yn cydnabod fod cyflogeion a chynrychiolwyr yr Awdurdod yn darparu cyngor yn y cyd-destun hwnnw yn unig, ac na fydd gan y Busnes unrhyw hawl (yn ddarostyngedig i gymal 5.3) i gael datrysiad yn erbyn cyflogai'r Awdurdod yn uniongyrchol.

6 CYFRINACHEDD

6.1 Yn ddarostyngedig i gymal 6.2, bydd pob Parti yn:

a) trin pob Gwybodaeth Gyffredinol y mae'n ei dderbyn yn gyfrinachol, yn ei ddiogelu'n unol â hynny ac yn peidio â'i ddatgelu i unrhyw berson arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Parti sy'n datgelu; ac

b) ni fydd yn defnyddio nac yn ecsbloetio Gwybodaeth Gyfrinachol y Parti sy'n datgelu mewn unrhyw fodd oni bai am bwrpasau'r Cytundeb hwn.

6.2 Er gwaethaf cymal 6.1, gall Parti ddatgelu Gwybodaeth Gyffredinol y bydd yn ei dderbyn mewn perthynas â'r Cytundeb hwn oddi wrth y Parti arall:

a) ble gofynnir am iddo gael ei ddatgelu gan gyfraith berthnasol neu gan lys barn a chanddo awdurdodaeth gymwys;

b) i'w archwilwyr i bwrpasau gofynion rheoleiddiol;

c) ar sail gyfrinachol, i'w ymgynghorwyr proffesiynol;

d) i'r Swyddfa Twyll Difrifol ble mae gan y Parti sail resymol i gredu fod y Parti arall yn cymryd rhan mewn gweithgaredd a all olygu trosedd o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010; neu

e) ble mai'r Parti sy'n derbyn yw'r Awdurdod, i'w gyflogeion ar sail angen gwybod er mwyn galluogi cyflawni perfformiad rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan y Cytundeb hwn ar yr amod y bydd yr Awdurdod yn sicrhau y bydd unrhyw gyflogeion y bydd yn datgelu'r Wybodaeth Gyfrinachol iddynt yn unol â'r cymal 6.2(e) hwn yn cynnal gofynion cyfrinachedd yr Awdurdod o dan y Cytundeb hwn.

7 RHYDDID GWYBODAETH

7.1 Mae'r Busnes yn cydnabod fod yr Awdurdod yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (yr "EIR') fel y newidir hwy, ac y bydd:

a) yn darparu pob cymorth a chydweithrediad angenrheidiol fel y gofynnir amdano'n rhesymol gan yr Awdurdod i alluogi'r Awdurdod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y FOIA a'r EIR.

7.2 Mae'r Busnes yn cydnabod y gellir gofyn i'r Awdurdod o dan yr FOIA a/neu'r EIR i ddatgelu'r cyfan neu ran o'r Cytundeb hwn, gwybodaeth yn ymwneud â'r Busnes neu'r Gwasanaeth (gan gynnwys gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol) heb ymgynghori neu dderbyn caniatâd gan y Busnes. Os yw'n gallu gwneud hynny, yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd dan yr FOIA a/neu'r EIR, bydd yr Awdurdod yn ceisio ymgynghori gyda'r Busnes cyn datgelu unrhyw beth.

7.3 Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cytundeb hwn, bydd yr Awdurdod yn gyfrifon am benderfynu a yw pob rhan neu ran o'r Cytundeb hwn, neu unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r Busnes neu'r Gwasanaeth sy'n ymwneud â'r Cytundeb hwn, yn gallu cael ei eithrio o ddatgeliad yn unol â'r FOIA a/neu'r EIR. Bydd y Busnes yn cydnabod ac yn cytuno mai'r Awdurdod sy'n gyfrifol am benderfynu o dan ei hawl llwyr ei hun a yw unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a/neu unrhyw wybodaeth arall yn eithriol o gael ei ddatgelu yn unol â darpariaethau'r FOIA neu i'w' ddatgelu mewn ymateb i Gais am Wybodaeth.

8 GWARCHOD DATA PERSONOL A DIOGELWCH DATA

8.1 Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion hysbysiadau o dan y DPA a bydd y ddau Barti yn cwrdd â'u holl ofynion yn eu tro o dan y DPA sy'n codi mewn cyswllt â'r Cytundeb hwn.

8.2 Ac eithrio'r rhwymedigaeth gyffredinol yng nghymal 8.1, ble mae'r Awdurdod yn prosesu 'data personol' ar ran y Busnes fel 'prosesydd data' (ac y mae'r geiriau a grybwyllwyd ac a grybwyllir mewn dyfynodau yn cael eu diffinio gan y DPA), bydd yr Awdurdod yn cymryd camau rhesymol i:

a) sicrhau ei fod wedi gosod mewn lle fesurau technegol a threfniannol addas i sicrhau diogelwch y ‘data personol; (ac i warchod yn erbyn prosesu ‘data personol’ yn anghyfreithlon ac anawdurdodedig ac yn erbyn colli neu ddinistrio damweiniol o ‘ddata personol neu niwed iddo) yn ôl gofynion Seithfed Egwyddor Diogelu Data yn Rhestr 1 y DPA, gan ystyried bob amser gyflwr datblygiadau technolegol a chost gweithredu unrhyw fesurau;
b) ddarparu’r fath wybodaeth i’r Busnes ag y bydd hawl rhesymol gan y Busnes i ofyn amdano i’w fodloni’i hun fod yr Awdurdod yn cydymffurfio â’i rwymedigaethau o dan y DPA;
c) roi gwybod ar fyrder i’r Busnes o unrhyw doriad yng ngofynion diogelwch y Busnes fel y cyfeirir atynt yng nghymal 8.2(a); a
d) sicrhau nad yw’n gwneud yn wybyddus neu drwy esgeulustod neu’n peidio â gwneud unrhyw beth sy’n rhoi’r Busnes mewn sefyllfa sy’n torri rhwymedigaethau’r Busnes o dan y DPA

9 TERFYNU

9.1 Heb gyfyngu ar hawliau neu atebion ei gilydd, gellir terfynu’r Cytundeb gan y naill Barti neu’r llall o ddarparu 4 wythnos o rybudd ysgrifenedig i’r Parti arall.

9.2 Heb gyfyngu ar hawliau neu atebion y llall, gall yr Awdurdod derfynu’r cytundeb ar unwaith drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i’r Busnes os:

a) yw’r Busnes yn oedi, neu’n bygwth oedi, talu’i ddyledion neu’n methu â thalu’r dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus neu’n cyfaddef nad yw’n gallu talu’r dyledion neu (os yw’n gwmni neu’n bartneriaeth atebol gyfyng) y bernir nad yw’n gallu talu’r dyledion o fewn ystyr adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986 neu (os yw’n unigolyn) y bernir nad yw’n gallu talu dyledion neu, heb fod ganddo unrhyw argoel resymol o allu gwneud hynny, yn y naill achos neu’r llall, o fewn ystyr adran 268 o Ddeddf Ansolfedd 1986, neu (os yw’n bartneriaeth) nad oes ganddo bartner y mae unrhyw gyfran o hyn yn berthnasol;

b) Mae’r Busnes yn dechrau trafodaethau â’i holl gredydwyr neu unrhyw ddosbarth o’i gredydwyr gyda’r bwriad o aildrefnu unrhyw rai o’i ddyledion, neu’n gwneud cynnig neu’n gweithredu cyfaddawd neu drefniant gyda’i gredydwyr;

c) llenwir deiseb, rhoddir hysbysiad, pasir cynnig, neu gwneir gorchymyn, ar gyfer neu mewn cyswllt â dwyn y Busnes i ben (os yw’n gwmni);

d) mae’r Busnes (os yw’n unigolyn) yn ddarostyngedig i ddeiseb neu orchymyn methdaliad;

e) mae credydwr neu lyffetheiriwr y Busnes yn atodi neu’n meddiannu’r cyfan neu ran o’r asedau, neu y gweithredir neu gorfodir neu hawlir yn erbyn atafaeliad, gweithredu, gorfodogi neu broses arall, ac ni ryddheir proses o’r’ fath o fewn 14 niwrnod; gwneir cais i lys barn, neu gwneir gorchymyn, i benodi gweinyddwr neu os rhoddir hysbysiad o fwriad i benodi gweinyddwr dros y Busnes (os yw’n gwmni);

f) gwneir cais i lys barn, neu gwneir gorchymyn, i benodi gweinyddwr neu os rhoddir hysbysiad o fwriad i benodi gweinyddwr dros y Busnes (os yw’n gwmni);

g) daeth deiliad â hawl gymwys dros asedau'r Busnes (os yw'n gwmni) yn gymwys i benodi neu mae wedi penodi derbynnydd gweinyddol;

h) daw person yn deilwng i benodi derbynnydd dros asedau'r Busnes neu penodir derbynnydd dros asedau'r Busnes;

i) bydd unrhyw beth yn digwydd, neu weithred yn cael ei chymryd, sy'n effeithio ar y Busnes mewn unrhyw awdurdodaeth y mae'n ddarostynged iddi sy'n cael effaith cyfwerth â neu debyg i unrhyw rai o'r digwyddiadau a grybwyllir yng nghymal 13.2(b) i gymal 13.2(i) (cynwysedig);

j) mae'r Busnes yn atal, yn bygwth atal, yn dod i ben neu'n bygwth dwyn i ben, ei holl neu fwy neu lai ei holl fusnes;

k) mae sefyllfa ariannol y Busnes yn dirywio i'r fath raddau fod gallu'r Busnes i gyflawni'i ofynion yn addas o dan y cytundeb, ym marn yr Awdurdod, wedi'i beryglu; neu

l) mae'r Busnes (os yw'n unigolyn) yn marw, neu oherwydd salwch neu anallu (boed feddyliol neu gorfforol) mae'n analluog i reoli'i fusnes ei hun neu daw'n glaf o dan unrhyw ddeddfwriaeth iechyd meddwl.

9.3 Heb gyfyngu ar ei hawliau neu atebon eraill, gall yr Awdurdod derfynu'r cytundeb ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Busnes os yw'r Busnes yn methu â thalu unrhyw swm sy'n ddyledus o dan y cytundeb hwn ar y dyddiad talu dyladwy.

9.4 Ar derfynu'r cytundeb hwn am unrhyw reswm, bydd y Busnes yn talu ar unwaith i'r Awdurdod y cyfan sy'n ddyledus i'r Awdurdod ar anfonebau na chawsant hwy mo'u talu, ac yn unol â'r Gwasanaethau a gyflawnwyd ond nad oes anfoneb wedi'i chyflwyno eto, bydd yr Awdurdod yn cyflwyno anfoneb, a fydd yn daladwy gan y Busnes ar unwaith ar ôl ei dderbyn.

9.5 Bydd cymalau sy'n dal mewn grym yn amlwg neu drwy awgrym ar ôl terfynu yn para mewn grym ac effaith llawn.

10 DATRYS ANGHYDFOD

10.1 Bydd y Partïon yn ceisio trafod cytundeb mewn ewyllys da ar unrhyw anghydfod a gwyd rhyngddynt o ran neu mewn cyswllt â'r Cytundeb hwn, a bydd ymdrechion o'r fath yn cynnwys cynyddu'r anghydfod i sylw cynrychiolydd â chyfrifoldeb addas o du'r ddau Barti.

10.2 Os na ellir datrys yr anghydfod gan y Partïon o fewn mis i gael ei gynyddu fel y cyfeirir ato yng nghymal 10.1, gall yr anghydfod gael ei gyfeirio at gynghorydd neu gyfyngydd niwtral (y "Cyfryngydd") a ddewiswyd drwy gytundeb rhwng y Partïon os yw'r Partïon yn cytuno i hyn. Bydd pob trafodaeth gysylltiedig â'r anghydfod yn cael eu cynnal yn gyfrinachol a heb duedd i hawliau'r Partïon mewn unrhyw drafodaethau pellach.

10.3 Os yw'r Partïon yn methu â phenodi Cyfryngydd y cytunwyd arno gan y ddeutu o fewn un mis, neu'n methu â mynd i gytundeb ysgrifenedig sy'n datrys yr anghydfod o fewn un mis i benodi'r Cyfryngydd, enwebir cyfryngydd gan y Ganolfan Datrys Anghydfod yn Effeithiol (CEDR). I roi cychwyn ar y cyfryngu, rhaid i barti rhoi rhybudd ysgrifenedig (rhybudd Datrys Anghydfod Amgen [ADR]) i'r parti arall yn yr anghydfod, gan erchi cyfryngiad. Dylid anfon copi o'r' rhybudd ADR at CEDR. Bydd y cyfryngu'n dechrau nid llai na 20 niwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd ADR.

10.4 Ni fydd parhau cyfryngu'n rhwystro'r ddau barti rhag cychwyn neu ddal ati i gynnal gweithredoedd yn y llys neu gymrodeddu mewn perthynas â'r anghydfod perthnasol.

11 CYFFREDINOL

11.1 Mae'r ddau Barti yn sicrhau ac yn gwarantu i'r llall fod ganddo allu ac awdurdod llawn, a phob caniatâd, trwydded a hawl i ymgymryd â'r cytundeb hwn, ac i gyflawni'i ymrwymiadau o dan y Cytundeb hwn a bod y Cytundeb hwn yn cael ei weithredu gan ei gynrychiolydd ag awdurdod addas.

11.2 Ni fydd person nad yw'n barti i'r Cytundeb hwn yn cael unrhyw hawl i orfodi unrhyw rai o'i ddarpariaethau sydd, yn ymwybodol neu drwy awgrym, yn rhoi budd arno ef neu hi, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw y Partïon.

11.3 Ni ellir amrywio'r Cytundeb hon oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan gynrychiolydd sy'n meddu ar awdurdod cymwys gan y ddau Barti.

11.4 Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys yr holl gytundeb rhwng y Partïon ac mae'n goresgyn ac yn cymryd lle unrhyw gytundebau, gynrychioliadau neu ddealltwriaethau blaenorol yn llafar neu'n ysgrifenedig rhwng y ddau ohonynt. Mae'r Partïon yn cadarnhau nad ydynt wedi mynd i'r Cytundeb hwn ar sail unrhyw gynrychiolaeth nad yw wedi'i ymgorffori'n amlwg yn y Cytundeb hwn. Ni fydd dim yn y cymal hwn yn eithrio atebolrwydd am dwyll neu gamgynrychiolaeth dwyllodrus.

11.5 Bydd unrhyw hawlildiad neu lacio rhannol neu lwyr ar unrhyw delerau ac amodau yn y cytundeb hwn yn ddilys dim ond os cyfathrebir hyn i'r Parti arall yn ysgrifenedig, ac y nodir yn amlwg mai hawlildiad ydyw. Ni fydd hawlildiad o ran unrhyw hawl neu ddatrysiad sy'n codi o dorri cytundeb yn gyfwerth â hawlildiad o unrhyw hawl neu ateb sy'n codi o doriad arall o'r Cytundeb.

11.6 Ni fydd y Cytundeb hwn yn cyflawni na'n awgrymu unrhyw bartneriaeth, menter ar y cyd, asiantaeth, perthynas ymddiriedol nac unrhyw berthynas arall rhwng y partïon heblaw am y berthynas gytundebol y darperir yn benodol amdani yn y Cytundeb hwn. Ni fydd y naill Barti na'r llall yn cael, nac yn cynrychioli fod ganddo, unrhyw awdurdod i wneud unrhyw ymrwymiadau ar ran y Parti arall.

11.7 Oni bai am y modd y darparwyd yn benodol amdano gan y Cytundeb hwn, bydd pob datrysiad sydd ar gael i'r naill Barti neu'r llall o ran torri'r Cytundeb hwn (boed o dan y Cytundeb hwn, statud neu gyfraith gyffredin) yn gynyddol a gellir eu gweithredu ar y cyd neu ar wahân, ac ni fernir fod gweithredu un datrysiad yn dewis y datrysiad hwnnw ar draul datrysiadau eraill.

11.8 Os gwaherddir unrhyw ddarpariaeth yn y Cytundeb hwn gan y gyfraith, neu y bernir gan lys barn i fod yn anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n anorfodadwy, bydd y ddarpariaeth honno, i'r graddau y gelwir am hynny, yn cael eu torri o'r Cytundeb ac yn cael eu dirymu hyd y bo modd heb newid darpariaethau eraill y Cytundeb hwn, ac

ni fyddant yn effeithio mewn unrhyw fodd unrhyw amgylchiadau eraill na gwirionedd neu orfodaeth y Cytundeb.

12 HYSBYSIADAU

12.1 Bydd unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Cytundeb hwn yn digwydd yn ysgrifenedig a gellir ei gyflwyno â llaw bersonol, post dosbarth cyntaf neu bost a gofnodwyd i gyfeiriad y Parti perthnasol fel yr amlinellir ef uchod, neu unrhyw gyfeiriad arall y bydd y Parti o bryd i'w gilydd yn ei hysbysu i'r Parti arall yn unol â'r cymal hwn.

12.2 Bernir fod hysbysiadau a gyflwynir yn y modd uchod wedi'u cyflwyno ar Ddiwrnod Gwaith cyflwyno ar yr amod fod y cyflwyno'n digwydd cyn 5.00pm ar ddiwrnod Gwaith. Fel arall bernir fod cyflwyno wedi digwydd ar y Diwrnod Gwaith nesaf. Bernir fod e-bost wedi'i gyflwyno pan anfonir ef oni dderbynnir neges yn nodi gwall.

13 ATAL LLWGRWOBRWYO A LLYGRU

13.1 Ni fydd y Busnes yn:

13.1.1 cynnig neu roi, neu gytuno i roi, i unrhyw gyflogai, asiant, gwas neu gynrychiolydd yr Awdurdod, nac unrhyw gorff neu berson cyhoeddus arall a gyflogir gan neu ar ran yr Awdurdod, unrhyw rodd neu ystyriaeth arall o unrhyw fath a allai weithredu fel cymhelliad neu wobr ar gyfer unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu sy'n berthnasol i'r Cytundeb hwn:

13.1.2 cymryd rhan mewn unrhyw weithred a waherddir o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010, nac unrhyw ddeddfau, statudau, rheoliadau neu godau eraill yn ymwneud â llwgrwobrwyo a gwrth-lygru, ac ni fydd yn caffael i unrhyw gyflogai, ymgynghorydd asiant neu is-gontractwr yn y Busnes neu unrhyw berson yn gweithio ar ran y Busnes yn gwneud hynny chwaith; na

13.1.3 chyflawni unrhyw droseddau o dan Ddeddfau Rhwystro Llygredd 1889 i 1916.

13.2 Bydd y Busnes yn ymateb ar fyrder i unrhyw rai o ymholiadau'r Awdurdod parthed unrhyw doriad, darpar doriad neu amheuaeth o doriad i'r cymal hwn a bydd y Busnes yn cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad mewn cyswllt ag unrhyw ddarpar doriad.

13.3 Os yw'r Busnes, ei gyflogeion, ymgynghorwyr, asiantwyr neu isgontractwyr, neu unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran y Busnes, ymhob achos waeth a yw hynny'n wybyddus i'r Busnes ai peidio, yn torri'r cymal hwn neu Ddeddf Llygru 2010 yng nghyd-destun y Cytundeb hwn bydd gan yr Awdurdod hawl i derfynu'r Cytundeb hwn drwy hysbysiad ysgrifenedig a hynny ar unwaith.

14 Y GYFRAITH SY'N LLYWODRAETHU AC AWDURDODAETH

14.1 Llywodraethir dilysrwydd, adeiladwaith a pherfformiad y Cytundeb hwn, a phob mater cytundebol ac anghytundebol sy'n deillio ohono, dan gyfraith Cymru a Lloegr a bydd yn ddarostyngedig i Awdurdodaeth llysoedd barn Cymru a Lloegr yn unig, y bydd y Partïon yn ddarostyngedig idd